# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## Cyllid Llywodraeth Leol (CYMRU)

## ADRODDIAD AR GRANT ARBENNIG (Rhif 16) (CYMRU) 2002

**Adroddiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.**

**Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Adroddiad ar Grant Arbennig (Rhif 16) (Cymru) 2002

**GRANT ARBENNIG AR GYFER DATBLYGU TECHNOLEG GWYBODAETH**

**Rhagarweiniad**

1. Gwneir yr adroddiad hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (”y Cynulliad”) dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”)[1]. Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a ddaeth i rym ar Orffennaf 1 1999, caiff swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 88b eu harfer gan y Cynulliad mewn perthynas â Chymru, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau’r Gorchymyn hwnnw. Mae’r adroddiad hwn yn rhoi manylion am benderfyniad ynglŷn â grantiau arbennig y mae’r Cynulliad yn bwriadu eu talu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru (“awdurdodau”).

2. Mae’r adroddiad hwn yn rhoi manylion am benderfyniad y Cynulliad ynghylch pa awdurdodau y telir y grant iddynt, diben talu’r grantiau a’r swm y mae’n fwriad gan y Cynulliad ei dalu i bob awdurdod. Mae hefyd yn rhoi hynny o eglurhad y cred y Cynulliad sydd angen ei roi o brif nodweddion y dyfarniad ac yn rhoi manylion am yr amodau y mae’n fwriad gan y Cynulliad eu pennu wrth dalu’r grantiau.

**Y diben**

3. Yn unol ag adran 88B(3)(b) Deddf 1988, mae’r Cynulliad yn penderfynu trwy hyn y telir y grantiau arbennig (“Grantiau Arbennig ar gyfer Datblygu Technoleg Gwybodaeth”) i’r dibenion canlynol:

    Darparu cefnogaeth tuag at y gwariant a gafwyd neu a geir gan awdurdodau wrth ddatblygu eu meddalwedd Technoleg Gwybodaeth mewn perthynas â threfniadau ariannu newydd Cefnogi Pobl.

**Awdurdodau a’r swm sy’n daladwy.**

4. Yn unol ag adran 88B(3)(a) Deddf 1988, mae’r Cynulliad trwy hyn yn penderfynu mai’r awdurdodau a restrir yng ngholofn 1 Atodiad A yw’r rhai y telir y Grantiau Arbennig ar gyfer Datblygu Technoleg Gwybodaeth iddynt.

5. Yn unol ag adran 88B(3)(c) Deddf 1988, mae’n fwriad gan y Cynulliad dalu i awdurdod a restrir yng ngholofn 1 Atodiad A y swm a nodir ar gyfer yr awdurdod hwnnw yng ngholofn 2 Atodiad A.

[1] Gosodwyd Adran 88B yn Neddf 1988 gan baragraff 18 Atodlen 10 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

## Prif nodweddion

6. Yn unol ag 88B(4) Deddf 1988, mae Atodiad B yn cynnwys hynny o eglurhad y dymuna'r Cynulliad ei roi am brif nodweddion y penderfyniad y rhoddir manylion yn ei gylch yn yr Adroddiad hwn.

## Amodau ar gyfer talu'r grantiau arbennig

7. Yn unol ag 88B(7) Deddf 1988, mae'r Cynulliad yn datgan trwy hyn mai'r amodau a amlinellir yn Atodiad C yw'r amodau y mae'n fwriad gan y Cynulliad eu pennu wrth dalu Grantiau Arbennig ar gyfer Datblygu Technoleg Gwybodaeth.

Cymeradwywyd trwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ragfyr 4 2002.

**Atodiad A – Dyraniad Grantiau Arbennig ar gyfer Datblygu Technoleg Gwybodaeth**

| Colofn 1<br>**Awdurdodau** | Colofan 2: **Dyraniad Bwriedig 2002-03** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | £50,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £50,000 |
| Caerffili | £50,000 |
| Caerdydd | £50,000 |
| Sir Gaerfyrddin | £50,000 |
| Ceredigion | £50,000 |
| Conwy | £50,000 |
| Sir Ddinbych | £50,000 |
| Sir Fflint | £50,000 |
| Gwynedd | £50,000 |
| Ynys Môn | £50,000 |
| Merthyr Tudful | £50,000 |
| Sir Fynwy | £50,000 |
| Castell-nedd Port Talbot | £50,000 |
| Casnewydd | £50,000 |
| Sir Benfro | £50,000 |
| Powys | £50,000 |
| Rhondda Cynon Taf | £50,000 |
| Abertawe | £50,000 |
| Torfaen | £50,000 |
| Bro Morgannwg | £50,000 |
| Wrecsam | £50,000 |
| **CYFANSWM** | £1,100,000 |

1. Bydd cyfanswm y grantiau arbennig a fydd ar gael i awdurdodau yn £1.1m.

2. Caiff y grant ei rannu'n gyfartal rhwng yr awdurdodau gan y rhagwelir y bydd cost datblygu Technoleg Gwybodaeth i roi'r rhaglen ariannu Cefnogi Pobl newydd ar waith yn debyg trwy Gymru gyfan, waeth beth fo maint yr awdurdod.

3. Mae'r grant hwn yn daliad unwaith-ac-am-byth sy'n ychwanegol i'r £1.2m a roddwyd i awdurdodau ym mis Ebrill 2002 i wrthbwyso'r baich o weithredu rhaglen ariannu Cefnogi Pobl.

4. Telir y grant yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Atodiad C.

**Atodiad B**

**Prif nodweddion y Grant**

1. £1,100,000 yw cyfanswm y grant, wedi ei rannu'n gyfartal rhwng awdurdodau, a bydd yn daliad unwaith-ac-am-byth i wrthbwyso'n rhannol y gost o osod systemau Technoleg Gwybodaeth newydd ar gyfer rhoi'r rhaglen ariannu Cefnogi Pobl ar waith.

2. Mae'n bwysig fod gan awdurdodau ddigon o arian i weithredu'r rhaglen newydd oddi ar Ebrill 1 2003. Roedd dogfen gyfarwyddyd y Cynulliad "Sizing the Pot", a gyhoeddodd i ddarparwyr tai a gefnogir ym mis Awst 2002, yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer pennu lefelau ariannu trwy gymynrodd i wasanaethau Cefnogi Pobl. Dilynwyd hyn ym mis Hydref 2002 gan y ddogfen ymgynghorol "Codi Tâl ac Asesiad Ariannol".

3. Roedd y ddwy ddogfen yn cyfeirio at y systemau Technoleg Gwybodaeth a fyddai'n ofynnol yn ystod y cyfnod trawsnewid ac ar ôl gweithredu'r rhaglen newydd yn ei chyfanrwydd. Roedd awdurdodau'n bryderus na allent ddiwallu goblygiadau ariannu'r system newydd heb gefnogaeth ariannol ychwanegol ar gyfer datblygu Technoleg Gwybodaeth. Ceir yn ogystal gyfrifoldebau Technoleg Gwybodaeth pellach yn gysylltiedig â'r tasgau y mae'n rhaid i awdurdodau eu cyflawni wrth roi'r rhaglen Cefnogi Pobl ar waith.

4. Rhaid gwario'r Grantiau Datblygu Technoleg Gwybodaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2002-03.

**Atodiad C**

**Amodau ar gyfer talu'r grant arbennig**

1. Rhaid defnyddio'r Grantiau Arbennig ar gyfer Datblygu Technoleg Gwybodaeth cyn diwedd blwyddyn ariannol 2002-03 ac yna'n unig er mwyn datblygu systemau Technoleg Gwybodaeth mewn perthynas â'r Rhaglen Ariannu Cefnogi Pobl.

2. Rhaid i awdurdod, cyn y telir unrhyw grant, roi cadarnhad ysgrifenedig i'r Cynulliad ei fod yn bwriadu defnyddio'r grant ym mlwyddyn ariannol 2002-03 i gefnogi gwariant ar y rhaglen Cefnogi Pobl. Gwneir y taliad mewn un swm cyn gynted ag y bod modd ar ôl ei gadarnhau gan Gyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3. Dylai awdurdodau roi cadarnhad ysgrifenedig i'r Cynulliad erbyn Mehefin 30 2003 fod yr arian wedi ei wario yn ystod 2002-03 ac yn unol ag amodau'r Grant Arbennig.

4. Byddai methu â gwario'r grant yn unol ag Amodau'r Grant Arbennig neu fethu darparu cadarnhad o'r fath yn golygu fod yn rhaid ad-dalu'r grant i'r Cynulliad.